**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)

[DRAFFT]

## CYNNWYS

1 Aelodaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
2 Dod i rym
3 Enw byr

# Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)

[DRAFFT]

Deddf gan Senedd Cymru i newid y maen prawf ar gyfer aelodaeth feddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; ac i wneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch dilysrwydd penodiadau blaenorol i'r Tribiwnlys ac aelodaeth flaenorol ohono.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

**1 Aelodaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru**

(1) Mae paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (p. 20) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Daw'r ddarpariaeth bresennol yn is-baragraff (1).

(3) Ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(2) In sub-paragraph (1)(b), "registered medical practitioner" means a fully registered person within the meaning of the Medical Act 1983 (whether or not that person holds a licence to practise under that Act).

(3) If, before the coming into force of sub-paragraph (2), a person appointed as a medical member under this paragraph did not hold a licence to practise under the Medical Act 1983 (whether at the time of appointment or at any other time), that fact does not affect the validity of—

(a) the person's appointment to the Mental Health Review Tribunal for Wales, or

(b) the person's membership of that tribunal during that period."

**2 Dod i rym**

Daw'r Ddeddf hon i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

**3 Enw byr**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026, neu

(b) the Mental Health Review Tribunal for Wales (Membership) Act 2026.